**Mared Edwards**

1. Beth ydych chi'n ei wneud nawr? Pa fath o yrfa wnaethoch chi ddilyn/sydd gennych chi erbyn hyn?

Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf dwi'n byw lawr yng Nghaerdydd yn gweithio fel Swyddog Cymunedol Urdd Gobaith Cymru ym Morgannwg Ganol ac wedyn ers y Nadolig dwi wedi dychwelyd adref i Ynys Môn a bellach yn gweithio fel Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd gyda'r cyngor lleol.

2. Beth yw eich hoff atgof o fod yn Swyddog?

Amhosib fyddai dewis fy hoffaf foment o fy amser yn yr UM, ond rhaid mai dod i nabod fy nghyd-swyddogion a gwneud cymaint o ffrindiau newydd sydd ar y brig!

3. Sut gyngor fyddech chi'n rhoi i unrhyw sy'n sefyll dros y rôl?

Fy nghyngor i bawb sy'n ystyried sefyll dros y rôl yw ewch amdani! Mae'n gyfle gwych i ennill cymaint o sgiliau gwerthfawr, dod i nabod mwy o bobl a chael y cyfle i roi yn ôl i UMCA a pharhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld, ei chlywed, a'i gwerthfawrogi.